
Urdd

# URDD GOBAITH CYMRU


## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2019-2020



# CYNNWYS

1. AMDANOM NI

2. UCHELFANNAU

3. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

4. ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

5. GWERSYLLOEDD



6. CHWARAEON

7. PRENTISIAETHAU

8. IEUENCTID A CHYMUNED

9. EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

10. RHYNGWLADOL

11. NODDWYR A PHARTNERIAID

12. CYFRANIAD OES

13. ARIANNOL



Urdd

# AMDANOM NI

Mae gan yr Urdd 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed, sy'n ei gwneud y Mudiad ieuenctid gyda'r aelodaeth fwyaf yn Ewrop.

Ers 1922, mae'r Urdd wedi darparu cyfleoedd i fwy na 4 miliwn o blant a phobl ifanc Cymru fwynhau profiadau chwaraeon, celfyddydol, preswyl, dyngarol a gwirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd wedi'u galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a chymdeithas, yn ogystal ag ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder.

# UCHELFANNAU

2019-2020

Urdd



Gwersylloedd yr Urdd wedi denu dros **49,000** o ymweliadau

Diolch i Wasanaeth Awyr Agored yr Urdd, bu i bobl ifanc Cymru ymweld â thros **80** o fynyddoedd, coedwigoedd, llynnoedd, afonydd a thraethau'r wlad

Gwelwyd cychwyn buddsoddiad gwerth **£6.5miliwn** yn y Gwersylloedd

Bu i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop, ddenu **70,000** o gystadleuwyr a **100,000** o ymwelwyr


Darparwyd chwaraeon cymunedol ledled y wlad trwy **339** o glybiau i **11,065** o blant a phobl ifanc

Cofrestrodd **100** o ddysgwyr ar gynllun Prentisiaethau'r Urdd

Dosbarthwyd cylchgronau'r Urdd i **6,000** o ddarllenwyr brwd

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

CIP AR GYRHAEDDIAD EIN CYFRIFON




## FACEBOOK

2,354 o ddilynwyr newydd
(+40% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

1,795 o negeseuon wedi'u rhannu a'u derbyn
(+130% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

Cynnwys wedi'i weld 2,964,493 gwaith
(+42% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)





## TWITTER

1,702 o ddilynwyr newydd
(+255% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

15,920 o negeseuon wedi'u rhannu a'u derbyn
(+217% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

250,200 o wylwyr fideo, dros 3 eiliad
(323% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)




## INSTAGRAM

3,046 o ddilynwyr newydd
(+68% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

612 o negeseuon wedi'u rhannu a'u derbyn
(+1,700% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

Cynnwys wedi'i weld 1,608,694 gwaith
(+152% cynnydd blwyddyn ar flwyddyn)

Urdd

# ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

SIÂN LEWIS

Mae hi wedi bod yn fraint cwblhau fy ail flwyddyn wrth y llyw fel Prif Weithredwr yr Urdd. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i staff a gwirfoddolwyr egnïol y Mudiad am eu gwaith caled a'u hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf. Hebddynt, fyddai'r Urdd ddim yr hyn ydyw heddiw - sef Mudiad blaengar, bywiog a ffyniannus.

Mae darpariaeth yr Urdd yn seiliedig ar lais ein haelodau. Erbyn heddiw, mae gennym ddau ymddiriedolwr ifanc a rhwydwaith o fforymau ieuenctid rhanbarthol - sy'n sicrhau bod llais ein haelodau wrth wraidd ein Mudiad. Y lleisiau hyn sy'n arwain ein gwaith fel prif fudiad plant a phobl ifanc Cymru. A thrwy gynnal amrywiol bartneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, teimlaf ein bod yn llwyddo i gynnig profiadau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg amhrisiadwy i'n haelodau.

Gan edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, hoffwn nodi rhai o'm huchelfannau personol:

- Roedd mynediad i faes **Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro** am ddim (am y tro cyntaf erioed) a phrofodd hynny yn arbrawf cadarnhaol gyda 100,000 yn ymweld dros chwe diwrnod yr ŵyl, a chynnydd yn y niferoedd o gystadleuwyr yn ogystal. Mae'r Eisteddfod yn ddigwyddiad perffaith i arddangos hwyl a bwrlwm yr iaith ynghyd ag ystod gweithgareddau'r Urdd, ac roedd cynnig maes di-dâl yng nghanol prifddinas Cymru wedi denu ymwelwyr na fyddai o bosib yn ymweld ag eisteddfod neu ddod i gysylltiad â'r Mudiad yn arferol.
- **Sefydlwyd ein gweledigaeth ryngwladol ar drothwy ein canmlwyddiant** a bu i ni gyhoeddi nifer o bartneriaethau newydd a chyffrous. Cychwynnodd Adran Brentisiaeth yr Urdd eu partneriaeth gydag asiantaeth United Purpose er mwyn cyfrannu at waith pwysig i gefnogi merched ifanc drwy gynllun arweinyddiaeth pêl-droed yn Kenya. Bûm yn ffodus o gael y cyfle i greu cysylltiadau gwerthfawr drwy deithio i Alabama er mwyn atgyfnerthu partneriaeth ieuenctid Cymru gyda phobl Alabama ac Eglwys y 16th Baptist Church, yna i Japan fel rhan o daith fasnach o Gymru i greu cysylltiadau ym maes y celfyddydau a chwaraeon. Daeth hefyd gadarnhad mai Mistar Urdd fydd masgot swyddogol Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2022!
- Yn dilyn ein hymgyrch **Cyfle i Bawb - Cronfa Gwersyll Haf yr Urdd**, sicrhawyd bod 100 o blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru yn mynychu ein Gwersylloedd Haf, a hynny yn ddiolch arbennig i'r nawdd a roddwyd gan amrywiol gwmnïau masnachol, unigolion a sefydliadau. Fel Mudiad sy'n ymhyfrydu mewn bod yn gynhwysol ac agored i bawb, mae'n gyfrifoldeb arnom i geisio mynd i'r afael ag effaith tlodi ar blant a phobl ifanc. Fel mudiad sydd â phlant a phobl ifanc wrth wraidd ein holl weithgareddau, dyma un ffordd o sicrhau bod modd i bawb, beth bynnag fo'u cefndir, gael y profiad o aros yn un o'n gwersylloedd.
- Roedd hi'n flwyddyn fawr i **Wersylloedd yr Urdd**, gyda chychwyn buddsoddiad gwerth £6.5 miliwn yn y pedwar canolfan. Mae hyn yn cynnwys troi Pentre Ifan, Sir Benfro yn Ganolfan Lles ac Amgylcheddol; Gwersyll Glan-llyn i ddatblygu Glan-llyn Isaf fel Canolfan Addysgol newydd sbon yn arbennig i'n cynulleidfa 16+ ynghyd ag uwchraddio cyfleusterau'r Ganolfan Hyfforddi Gweithgareddau Dŵr; a thrawsnewid "calon" Gwersyll Llangrannog. Mae'r buddsoddiad yn gwireddu ein gweledigaeth o ddatblygu gwersylloedd arloesol, modern sydd yn cefnogi'r cysyniad o 'ddysgu tu allan i'r dosbarth' ar gyfer cenedlaethau o blant a phobl ifanc Cymru i'r dyfodol.

Dim ond casgliad o uchafbwyntiau sydd wedi eu nodi uchod – mae'r rhestr lawn yn faith. Cyfle i gymryd cipolwg yn unig dros y flwyddyn a fu yw'r ddogfen hon. Ond mae'n rhaid nodi y daeth tro ar fyd ym mis Mawrth 2020, a daeth y flwyddyn i ben gyda'r Urdd yn wynebu cyfnod mwyaf heriol ei hanes o ganlyniad i bandemig Covid-19. Rydym yn hynod ddiolchgar o gefnogaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid, sydd wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau goroesiad yr Urdd, bod y gwaith cyfalafol yn parhau yn y gwersylloedd, a'n galluogi i ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Siân



Urdd

# GWERSYLLOEDD

DATBLYGIADAU ARLOESOL I YSBRYDOLI CENEDLAETHAU'R DYFODOL



## CRONFA CYFLE I BAWB

Yn dilyn llwyddiant ymgyrch codi arian ar gyfer ein **Cronfa Cyfle i Bawb**, sicrhawyd bod 100 o blant a phobl ifanc mwyaf difreintiedig Cymru yn cael mwynhau gwyliau yn un o Wersylloedd yr Urdd yn ystod haf 2019



## GLAN-LLYN ISA'

Ar y 25ain o Hydref 2019, torrwyd y dywarchen gyntaf yng **Nglan-llyn Isa'** ger prif safle Gwersyll Glan-llyn. Mae'r gwaith adnewyddu gwerth £800,000 yn gweld trawsnewid y tŷ carreg i ganolfan annibynnol, fodern fydd yn cynnig llety ac adnoddau i hyd at 40 person. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, ac mae'r buddsoddiad yn rhan o brosiect mwy i ehangu ac uwchraddio cyfleusterau gwersylloedd yr Urdd



## PENTRE IFAN

Cyhoeddwyd ein cynlluniau arloesol i drawsnewid **Pentre Ifan** yn Sir Benfro i mewn i'n gwersyll amgylcheddol cyntaf. Mi fydd y gwersyll yn cynnig dihangfa ddigidol i bobl ifanc drwy gynnig cyfleoedd iddynt gysylltu â'u tirlun amgylcheddol a diwylliannol, a phrofi ffordd o fyw mwy cynaliadwy. Mi fydd y buddsoddiad gwerth £1miliwn yn galluogi cynnig llety o safon i 40, cyfleusterau glampio, gardd-gegin i dyfu bwyd, cegin awyr agored a chyfleusterau i gymdeithasu o dan y sêr.



## GWERSYLL CAERDYDD + LLAMAU

Canlyniad i bartneriaeth newydd rhwng yr Urdd a'r elusen ddigartrefedd **Llamau** oedd gwahodd 240 o bobl ifanc a menywod bregus a'u plant i fwynhau cinio Nadolig tri chwrs yng **Ngwersyll Caerdydd** ar y 18fed a'r 19eg o Ragfyr 2019. Ymunodd y chwaraewr rygbi rhyngwladol Rhys Patchell a'r DJ Huw Stephens yn y dathliadau - o weini'r bwyd i alw rhifau bingo a rhannu gwobrau ac anrhegion.

Urdd

# CHWARAEON

## TORRI TIR NEWYDD












### RYGBI 7 BOB OCHR

Denwyd dros 500 o dimau i gymryd rhan yng nghystadleuaeth **7 bob ochr yr Urdd ac Undeb Rygbi Cymru** yn ystod mis Ebrill 2019 – y gystadleuaeth rygbi mwyaf o'i math yng Nghymru. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ym Mae Colwyn ac ar gaeau chwarae Pontcanna a Llandaf, oedd yn cynnwys gŵyl rygbi i blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae rygbi, yn ei amrywiol ffurf, yn gamp i bawb.

### PÊL-RWYD

Mae'r adran Chwaraeon wedi gweld cynnydd mawr yn y niferoedd o ferched sy'n mynychu ein clybiau **pêl-rwyd** cymunedol, a bu i 2,000 fynychu ein cystadleuaeth pêl-rwyd genedlaethol ym mis Tachwedd 2019.

### PÊL-FASGED PARTH CYNHWYSOL

Am y tro cyntaf erioed, bu i'r Urdd gynnal **Cystadleuaeth Pêl-fasged Parth Cynhwysol** (*Inclusive Zone Basketball*) ar gyfer ysgolion uwchradd Cymru ym mis Rhagfyr 2019, a hynny mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae Pêl-fasged Parth Cynhwysol yn gymysgedd o bêl-fasged rhedeg a chadair olwyn, ac mae'r gamp yn galluogi chwaraewyr anabl i chwarae ochr yn ochr â chwaraewyr heb anableddau. Bu i 20 o dimoedd fynychu'r gystadleuaeth, gyda'r nod o ennill teitl Cymru a symud ymlaen i rowndiau terfynol IZB y DU. Carfan Ysgol Gyfun Aberaeron ddaeth i'r brig y tro hwn.

### GWOBR

Dyfarnwyd safon Efydd 'insport' gan Chwaraeon Anabledd Cymru i'r adran Chwaraeon, am sicrhau amrywiaeth o weithgareddau, clybiau a chystadlaethau cynhwysol. Maent yn anelu at dderbyn y wobr Arian yn 2021.

Urdd


# PRENTISIAETHAU

MYND O NERTH I NERTH









## MERCHED YN YSBRYDOLI

**Mae 75% o brentisiaid yr Urdd yn fenywaidd** ac yn ysbrydoliaeth i ferched eraill ymwneud â'r sector chwaraeon a gwaith ieuenctid. Dewiswyd un o'n prentisiaid, Elen Jones, fel un o Lysgenhadon Prentisiaid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## DARPARWR PRENTISIAETHAU ALLANOL

Yn dilyn buddsoddiad helaeth yn y cynllun Prentisiaethau, mae'r Urdd bellach yn **Ddarparwr Prentisiaethau Allanol** cydnabyddedig. Golyga hyn y gall aelodau staff cwmni neu sefydliad dderbyn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg o fewn eu sefydliad, mewn un ai Arwain Gweithgareddau Chwaraeon neu Ddatblygu Chwaraeon, gan barhau gyda'u swydd a'u dyletswyddau arferol.

## PARTNERIAETH *UNITED PURPOSE*

Ym mis Mai 2019, cyhoeddwyd partneriaeth newydd tair blynedd rhwng yr Urdd a'r **asiantaeth ryngwladol United Purpose**, i gynnig cyfleoedd i brentisiaid ifanc yr Urdd ennill profiad yn gweithio mewn gwledydd ar draws Affrica, Asia a De America. Ym mis Awst, aeth 4 o brentisiaid yr Urdd allan i Kenya i weithio ar gynllun 'Moving the Goalposts'.

## PARTNERIAETHAU GOFAL PLANT

Ar ddechrau 2020 lansiwyd partneriaeth newydd rhwng yr **Adran Brentisiaethau, Mudiad Meithrin a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** er mwyn darparu Cynllun Prentisiaeth Gofal Plant cyfrwng Cymraeg, a chyrraedd anghenion hyfforddi'r sector gofal plant. Cynhelir y sesiynau hyfforddiant hyn yn rhithiol ar hyn o bryd.

Urdd

# IEUENCTID A CHYMUNED

DIWALLU ANGHENION PLANT A PHOBL IFANC CYMRU













## GWOBRAU

Derbyniodd yr Urdd **Farc Ansawdd Arian ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru** mewn seremoni wobrwyo ym mis Mehefin 2019 – y corff gwirfoddol cenedlaethol cyntaf i gyrraedd y safon. Gwobrwywyd y Mudiad am y gwaith a wneir o fewn cymunedau ledled y wlad, yn ogystal ag ar lefel genedlaethol – o Fforwm Ieuenctid yn codi arian at wella ymwybyddiaeth o ddigartrefedd a hawliau pobl LGBT, i Fwrdd Syr IfanC yn ymgyrchu ynghylch iechyd meddwl a lleihau gwastraff plastig.

## Y LLYWYDD

Parhaodd **Ethan Williams** o'r Beddau ger Pontypridd fel Llywydd yr Urdd am flwyddyn ychwanegol. Yn rhinwedd ei rôl, bu'n brysur fel Cadeirydd Bwrdd Syr IfanC, fforwm ieuenctid cenedlaethol yr Urdd. Un o uchafbwyntiau ei lywyddiaeth oedd mynychu Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro, a gynhaliwyd mor agos i'w gartref, a chael y cyfle i gyfarch ieuenctid Cymru wrth iddynt gystadlu a pherfformio ar brif lwyfannau'r ŵyl.

## NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA

Am y tro cyntaf erioed, bu i'r Urdd fynd y tu hwnt i Gymru wrth lansio ei **Neges Heddwch ac Ewyllys Da** gan blant a phobl ifanc Cymru, a dechrau partneriaeth newydd gyda'r Eastside Young Leaders Academy yn Nwyrain Llundain. Crëwyd y neges gan Fwrdd Syr IfanC ar y thema o 'Lais', gan ganolbwyntio ar roi llais i bobl ifanc yn sgil achosion o droseddau treisgar, a herio gwleidyddion i wneud mwy i'w hatal.

## PRIDE CYMRU

Ym mis Awst, ymunodd criw o gynrychiolwyr o'r Urdd yng ngorymdaith **Pride Cymru**, a hynny ar achlysur ei chynnal yn y brifddinas am yr 20fed tro. Crëwyd carrai esgidiau lliwiau'r enfys yn arbennig i Mistar Urdd ar gyfer y digwyddiad.

## PATAGONIA

Ers 2008 mae'r Urdd a Mentrau Iaith Cymru wedi trefnu taith flynyddol sy'n galluogi 25 o Gymry ifanc i ymweld â **Phatagonia** yn yr Ariannin. Roedd taith Hydref 2019 yn un llawn antur, oedd yn cynnig y cyfle i gwrdd â thrigolion Y Wladfa a dysgu am eu traddodiadau, eu ffordd unigryw o fyw, a'u hymdrechion arwrol wrth gynnal parhad yr iaith Gymraeg yno. Mae dros 300 o bobl ifanc Cymru wedi cael y fraint o brofi'r daith hynod hon, bellach.

Urdd

# EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

CYFOETHOGI A CHYNYDDU CYFLEOEDD DIWYLLIANNOL I BLANT A PHOBL IFANC











## EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO

Roedd Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 yn llwyddiant ysgubol. Am y tro cyntaf erioed, roedd mynediad i faes yr ŵyl ym Mae Caerdydd yn rhad ac am ddim, a denwyd dros 100,000 o ymwelwyr. Yn ogystal, bu dros 70,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru yn cystadlu mewn ystod eang o gystadlaethau, o gynllunio dillad i ganu cerdd dant, o goluro i ddawnsio disgo. Roedd lleoliad yr Eisteddfod hefyd yn golygu fod cenhedlaeth o blant a phobl ifanc wedi cael profi gwefr wirioneddol o berfformio yn un o theatrau gorau'r byd - Theatr Donald Gordon yng Nghanolfan y Mileniwm.

## HEI, MISTAR URDD!

Ar drothwy dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i Gaerdydd a'r Fro, rhyddhawyd fersiwn newydd o gân adnabyddus y Mudiad, **Hei Mistar Urdd**. Comisiynwyd y cynhyrchydd, cyfansoddwr a'r canwr, Mei Gwynedd, i fynd ati i gynnwys lleisiau 2,000 o blant ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro ar y recordiad. Mae'r gân ar gael i'w lawrlwytho ar yr holl blatfformau digidol, a fideo miwsig arbennig i'w gweld ar ein sianel YouTube yn ogystal.

## SIOE IEUENCTID ABERHENFELEN


Y sioe wreiddiol **Aberhenfelen** oedd ffrwyth prosiect ar y cyd rhwng **Theatr Ieuenctid yr Urdd** a Chwmni Bara Caws. Bwriad y cynllun oedd cynnig profiadau celfyddydol gwerthfawr i 35 o bobl ifanc, yn ogystal â meithrin darpar gyfarwyddwr, is gyfarwyddwr, dawnsiwr, cerddor ac awdur o dan arweiniad tîm cynhyrchu profiadol. Felly yn ogystal ag actorion a cherddorion, roedd sioe Aberhenfelen yn cynnwys technegwyr, offerynwyr a chynllunwyr set a gwisgoedd ifanc oedd yn cyfrannu a chynorthwyo gyda'r gwaith tu ôl i'r llen. Perfformiwyd y sioe yn Galeri Caernarfon ac yn yr ATRiuM yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf, 2019.

## CAMERŴN

Sicrhawyd cyfle i enillydd cadair Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 gymryd rhan mewn gŵyl lenyddol fawr yn Affrica. Teithiodd Iestyn i **Gamerŵn** i fod yn rhan o'r African Festival of Emerging Writers yn Chwefror 2020. Yn ystod y daith, bu'n cymryd rhan mewn sgyrsiau llenyddol, yn perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn arwain gweithdai mewn ysgolion lleol, ac yn cydweithio gydag awduron rhyngwladol o Gamerŵn, Nigeria, Yr Ariannin a Ffrainc i greu pontydd diwylliannol rhwng y gwledydd hyn a Chymru.

# RHYNGWLADOL

ESTYN DWYLO DROS Y MÔR










## ALABAMA

Ffurfiwyd perthynas rhwng y Cymry a'r gymuned Affro Americanaidd ym Mirmingham, **Alabama** dros hanner canrif yn ôl yn dilyn ymosodiad terfysgol gan y Klu Klux Klan ar Eglwys y Bedyddwyr, 16th Street. Fel arwydd o gefnogaeth ac undod rhoddwyd ffenestr lliw i'r eglwys gan bobl Cymru.

Ar ymweliad swyddogol Siân Lewis a Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams â Phrifysgol Alabama ym mis Medi 2019 cyflwynodd yr Urdd blât gwydr i'r Eglwys fel arwydd o ail gydio a chryfhau'r berthynas rhwng yr Urdd a phobl Alanbama.

## SIAPAN

Ym mis Hydref 2019 bu'r Urdd yn rhan o daith fasnach a diwylliant Llywodraeth Cymru i **Japan** i gynrychioli ieuenctid Cymru er mwyn sefydlu cysylltiad a chreu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc y ddwy wlad. Cafwyd llu o sgyrsiau adeiladol gydag arweinwyr ac uwch swyddogion yno i drafod cydweithio rhwng y ddwy wlad i gynnig cyfleoedd diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon i bobl ifanc Cymru a Japan.

## AWSTRALIA

Diolch i gefnogaeth ariannol gan Gymru a'r Byd ac arian a godwyd yn lleol yn **Awstralia**, daeth cyfle arbennig i un o'n prentisiaid, Jack Perkins, a Swyddog Ieuenctid Lewys Wyn Jones i ymweld â Sydney ym mis Ionawr 2020 er mwyn cynnal gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Haf Gymraeg Sydney.

## IWERDDON

Yn ystod Wythnos Cymru Llywodraeth Cymru yn Nulyn ar ddechrau mis Mawrth 2020, lansiwyd partneriaeth newydd a chyffrous rhwng yr Urdd a TG Lurgan o **Iwerddon**. Mae TG Lurgan yn hyrwyddo'r Wyddeleg trwy ganeuon cyfoes gyda'u sianel YouTube yn denu miliynau o wylwyr. Nod y bartneriaeth newydd rhwng y ddau sefydliad yw dod â phobl ifanc o Gymru ac Iwerddon ynghyd i greu cyd-gynhyrchiad yn y Gymraeg a'r Wyddeleg i sicrhau bod y ddwy iaith yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang.

Yn y lansiad, rhoddodd aelodau'r Urdd o Aelwyd yr Ynys, Ynys Môn, berfformiad cerddorol, gan ddilyn arddull cynyrchiadau TG Lurgan.

Urdd

# NODDWYR A PHARTNERIAID

## DIOLCHWN I'R SEFYDLIADAU CANLYNOL A GEFNOGODD WAITH YR URDD YN YSTOD Y FLWYDDYN:

1st4Sport
ACT Training
Agored Cymru
ALS
Avanti
BBC Radio Cymru
BT
Castell Howell
Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Gŵyr

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Cwmni Theatr Bara Caws
Cyfreithwyr JCP Solicitors
Cyngor Caerdydd
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Llyfrau Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymru a'r Byd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Chwaraeon Anabledd Cymru
Chwaraeon Cymru

Darganfod Addysgu
Darwin Gray
Effectus HR
Gemau'r Gymanwlad Cymru
GLL
Gravells
Gwobr Goffa Gari
Integro
Llaeth y Llan
Llamau
Llywodraeth Cymru
Mentrau Iaith Cymru

Mudiad Meithrin
New Directions Addysg
NTFW
Odeon
Orchard Media
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol De Cymru
S4C
Sefydliad Elusennol Tudor Pritchard
Sport Leaders
Tai Wales & West Housing

Telesgop
Tinopolis
Trafnidiaeth Cymru
Trinity College London
UCAC
UK Parliment Education and Outreach
Undeb Rygbi Cymru
United Purpose
Western Power Distribution
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn
Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen




Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro, 2019

# CYDNABOD CYFRANIAD OES

TALU TEYRNGED I PRYS EDWARDS A BOB ROBERTS



## PRYS EDWARDS

Gyda thristwch rydym yn talu teyrnged i'r diweddar Prys Edwards, mab sylfaenydd yr Urdd, Syr Ifan ab Owen Edwards a Lady Eirys Edward, a fu farw ym mis Mawrth 2020.

Bu Prys, oedd yn bensaer wrth ei alwedigaeth, yn rhan o bwyllgorau a threfniadaeth yr Urdd am dros chwe deg o flynyddoedd, ac yn arweinydd brwd a chadarn. Roedd wrth ei fodd yn cael dianc o rialtwch bywyd bob dydd i ymweld â gwersylloedd yr Urdd, ac yn hynod o falch o'r datblygiadau newydd a chyffrous oedd ar y gweill ym mhob un o'r canolfannau.

Fel gŵr busnes craff ac un a wasanaethodd ar sawl corff cyhoeddus yng Nghymru, roedd yr Urdd yn agosach at ei galon na'r un. Roedd yn un o Lywyddion Anrhydeddus y mudiad, a hyd yn oed yn ei waeledd, yn frwdfrydig am ddyfodol a pharhad y mudiad.

"Magwyd ef ar aelwyd lle'r oedd y mudiad yn rhan o'r teulu. Roedd y mudiad a Phrys yn un mewn gwirionedd," meddai Dyfrig Davies, Cadeirydd yr Urdd. "Roedd yn hynod falch a gwerthfawrogol o waith y mudiad, ond doedd dim gorffwys ar rwyfau yn ei gynhysgaeth. Anelu yn uwch a gwell a mwy dros ieuenctid Cymru, yr iaith Gymraeg a'r diwylliant, dyna oedd ei nod.

"Mae ei lais a'i frwdfrydedd yn fyw o hyd ac yn ein gyrru i sicrhau'r gorau i Urdd Gobaith Cymru. Colled enfawr hefyd i bawb sydd wedi elwa ac yn caru'r Urdd. Un o fawrion Cymru o ran ymroddiad, gweledigaeth a'r hyn a lwyddodd i gyflawni."



## BOB ROBERTS

Ym mis Ebrill 2020 daeth y newyddion trist am farwolaeth Bob Roberts, un o Lywyddion Anrhydeddus y mudiad.

Bu Bob Roberts, ag Ann ei briod, yn hynod weithgar a chefnogol i'r Urdd dros ddegawdau. Bu Bob yn Drysorydd yr Urdd am naw mlynedd ac yn Gadeirydd am chwe blynedd, yn Ymddiriedolwr ac roedd yn parhau i fod yn Llywydd Anrhydeddus.

Yn wreiddiol o ardal Harlech a Phennal, bu Bob Roberts yn byw yn ardal Llandeilo yna Llanedi. Treuliodd ef a'i wraig flynyddoedd yng Nghaerdydd gan weithio'n ddiflino i gynorthwyo gyda rhedeg canolfan yr Urdd ar Conway Road yn yr adeg honno.

Yn ogystal â chefnogi ar lefel leol, sicrhaodd Bob Roberts sylw cenedlaethol i'r mudiad a oedd yn agos iawn at ei galon. Bu ef ac Ann yn ganolog ac yn hynod o lwyddiannus wrth drefnu gêm rygbi fawr i ddathlu 50 canfed pen-blwydd yr Urdd yn 1972. Gelwid hi yn Gêm y Jiwbilî, gyda dau gawr y byd rygbi yn arwain dau dîm - Barry John, yn ei gêm olaf, a Carwyn James – a dros 35,000 o gefnogwyr yn gwylio.

Urdd

# GWYBODAETH ARIANNOL

ADRODDIAD Y TRYSORYDD - 2019/2020



## Y TRYSORYDD - ABIGAIL WILLIAMS

Rwy'n hynod o falch o allu adrodd fod canlyniad 2019/20 yn bositif ac yn dangos gweddill o £0.2m am y cyfnod. Er fod incwm y Mudiad wedi gostwng ychydig i £11.95m (£12.9m yn 2018/19), mae angen nodi fod y flwyddyn flaenorol wedi bod yn eithriadol o ran cymynroddion, ac mae'r incwm o weithgareddau yn dangos cynnydd ar 2018/19. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant ein swyddogion yn denu grantiau ac incwm ychwanegol.

Gwelwyd hefyd gynnydd yng ngwariant yr Urdd ar weithgareddau eleni i £11.3m (£10.9m yn 2018/19), sy'n dyst o'r twf mewn gweithgaredd ar draws ystod eang o adrannau'r Mudiad ac yn cynnwys am y tro cyntaf costau sefydlu a gweithredu yr Adran Prentisiaethau.

Mae'r safon o ddarpariaeth yn y gwersylloedd, gwaith maes, chwaraeon a'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth, ac mae'r flwyddyn wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd. Er hynny, gwelwyd gostyngiad yn lefel incwm Eisteddfod yr Urdd, ac am yr ail flwyddyn yn olynol, ni lwyddodd yr Wŷl, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a'r Fro, i gyfrannu tuag at gostau canolog yr Urdd.

Diolch sydd i staff yr Urdd am eu hymroddiad ac am weithio mor ddiwyd yn sicrhau y canlyniadau yma. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cefnogi gwaith y Mudiad.

O ran gwariant cyfalafol eleni, o'r £1.03m a fuddsoddwyd, y prosiectau mwyaf oedd buddsoddiad gwerth £0.36m yn y gwaith cychwynnol ar brosiect Calon y Gwersyll yn Llangrannog, £0.18m yn datblygu adnoddau yn Llangrannog gan gynnwys trac gwib-gartio newydd a buddsoddi £0.34m yn ail-ddatblygu adeilad Glan-llyn Isa' . Bydd y prosiectau yma, yn ogystal a chynlluniau cyfalafol eraill y Mudiad ar gyfer y flwyddyn a hanner nesaf yn hollbwysig wrth foderneiddio, datblygu a gwella cyfleusterau ein gwersylloedd.

Er mor braf yw gallu adrodd canlyniad positif yn 2019/20, nid yw'n bosibl ysgrifennu'r adroddiad yma heb sôn am yr her ariannol mae'r Urdd yn wynebu o ganlyniad i sefyllfa Covid-19. Caewyd holl wasanaethau'r Urdd ar yr 20fed o Fawrth 2020, gan gynnwys y tri gwersyll a holl weithgareddau adran y maes a chwaraeon ynghyd â gohirio Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

O ganlyniad i hyn, mae'r Urdd wedi colli incwm sylweddol yn ystod y cyfnod ers mis Mawrth 2020, ac wedi gorfod addasu gweithgareddau ac edrych ar strwythur staffio'r Mudiad.

Mae'r Urdd yn hynod o ffodus o fod wedi cadw arian wrth gefn er mwyn cefnogi'r Mudiad mewn sefyllfaoedd ariannol anodd. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn parhau i elwa o gyfraniadau, cymynroddion a rhoddion ac mae ein diolch yn fawr i garedigion y Mudiad. Diolch hefyd i'r holl gyrff cyhoeddus am eu cefnogaeth, yn enwedig Llywodraeth Cymru sydd wedi rhoi cefnogaeth ariannol i'n galluogi i barhau gyda'n prosiectau adeiladu ac i helpu'r mudiad ailadeiladu wedi'r pandemig.

Gyda'r gefnogaeth yma, cefnogaeth ein holl aelodau, ac ymroddiad a gwaith diflino y staff a'r gwirfoddolwyr, fe fydd yr Urdd yn parhau i fonitro y sefyllfa ariannol yn ofalus, gyda'r nod o ailadeiladu gweithgareddau'r Mudiad a datblygu darpariaeth yr Urdd pan fydd y cyfyngiadau yn caniatáu hynny.

Urdd

# GWYBODAETH ARIANNOL

## FFYNONELLAU INCWM ALLANOL

| CYNIGWYD Y PRIF GRANTIAU CANLYNOL | (£) |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru - Hyrwyddo'r Gymraeg | 702,184 |
| Chwaraeon Cymru - Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol | 280,934 |
| Llywodraeth Cymru - Datblygiadau Cyfalafol | 825,954 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiect Cymraeg Ail Iaith | 168,275 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | 127,353 |
| Chwaraeon Cymru - Gemau Cymru | 110,000 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Prentisiaethau | 88,750 |
| Llywodraeth Cymru - Hybu Defnydd y Gymraeg | 60,800 |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol - Cynllun Prentisiaethau | 60,000 |
| Llywodraeth Cymru - Strategaeth Rhyngwladol | 48,000 |
| Cyngor Llyfrau - Grant Cylchgronau | 28,990 |
| Undeb Rygbi Cymru | 33,000 |
| Cronfa Gymunedol Gwynt y Mor | 24,277 |
| Prifysgol Aberystwyth | 16,000 |
| Cymdeithas Bel-droed Cymru | 4,500 |
| | |
| **Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau** | |
| Llywodraeth Cymru | 156,000 |
| Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru | 135,300 |
| Cynghorau Lleol | 2,970 |

| AWDURDODAU LLEOL - GAN GYNNWYS GRANTIAU CEFNOGI SWYDDOGION IEUENCTID, CHWARAEON A PRENTISIAID | (£) |
|---|---|
| Môn (cynnwys Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn) | 46,487 |
| Caerdydd (cynnwys Menter Iaith) | 38,689 |
| Y Fflint | 35,000 |
| Caerffili (cynnwys Menter Iaith) | 32,000 |
| Dinbych | 25,000 |
| Bro Morgannwg (cynnwys Menter Iaith) | 22,500 |
| Wrecsam | 15,000 |
| Casnewydd | 15,000 |
| Caerfyrddin | 13,500 |
| Pen-y-Bont | 11,000 |
| Merthyr | 10,582 |
| Powys | 10,000 |
| Ceredigion | 7,000 |
| Ceredigion | 7,000 |
| Mynwy | 6,000 |
| Blaenau Gwent | 6,000 |
| Conwy | 5,000 |
| Penfro | 4,000 |
| | |
| **Prif Gymynrhoddion** | |
| *John Morgan Glyn James, Llanrhystud | 350,000 |
| Miss Elizabeth Marina Davies, Aberaeron (balans y stâd) | 21,597 |
| Mr Thomas Robert Parry, Stourbridge (balans y stâd) | 19,000 |
| Mr Alec Williams James, Llannon | 17,822 |
| Mrs Rosalind Ann Melville Williams, Caerdydd | 2,000 |
| Mrs Lena Jones Parry, Caergybi | 2,000 |
| Mr Roy Harris, Llandysul | 1,000 |

** eiddo gadawyd i'r Urdd yn yr 1980au*

# GWYBODAETH ARIANNOL

## MANTOLEN, INCWM A GWARIANT

| MANTOLEN (31 MAWRTH 2020) | 2020 (£) | 2019 (£) |
|---|---|---|
| **Asedion Sefydlog** | | |
| Eiddo sylweddol | 15,539,689 | 14,495,071 |
| Buddsoddion | 3,084,596 | 3,154,067 |
| | 18,624,285 | 17,649,138 |
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Stoc | 30,641 | 58,460 |
| Dyledwyr | 778,859 | 1,169,780 |
| Buddsoddion | 896,943 | 875,410 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 2,079,944 | 2,548,519 |
| | 3,786,387 | 4,652,169 |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,342,864) | (1,453,127) |
| Asedion cyfredol net | 2,443,523 | 3,199,042 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 21,067,808 | 20,848,180 |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | - | - |
| | 21,067,808 | 20,848,180 |
| **Cronfeydd** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 930,994 | 1,944,434 |
| Cronfeydd rhydd | 19,915,565 | 16,933,679 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | - | 1,827,830 |
| Cronfa ail-brisio eiddo | - | (126,633) |
| Cronfeydd gwaddol | 221,249 | 268,870 |
| **Cronfeydd** | **21,067,808** | **20,848,180** |

| INCWM | 2020 (£) | 2019 (£) |
|---|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 3,076,969 | 3,042,726 |
| 2) Glanllyn | 1,898,807 | 1,835,091 |
| 3) Caerdydd | 965,317 | 875,942 |
| 4) Incwm o fuddsoddion | 77,843 | 68,512 |
| 5) Eisteddfod 2019 (heb gynnwys grantiau) | 914,368 | 1,133,223 |
| 6) Cylchgronau | 71,644 | 62,304 |
| 7) Aelodaeth | 448,188 | 434,646 |
| 8) Rhoddion a chymynroddion | 549,934 | 2,462,900 |
| 9) Amrywiol | 96,683 | 131,768 |
| 10) Grantiau (yn cynnwys chwaraeon ac eisteddfod) | 3,279,734 | 2,425,816 |
| 11) Chwaraeon | 349,201 | 441,517 |
| 12) Prentisiaethiaid | 221,857 | - |
| **Cyfanswm Incwm 2019/2020** | **11,950,546** | **12,914,445** |

| GWARIANT | 2020 (£) | 2019 (£) |
|---|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 2,919,767 | 2,869,742 |
| 2) Glanllyn | 2,045,720 | 1,924,179 |
| 3) Caerdydd | 935,425 | 777,364 |
| 4) Costau elusennol - Ieuenctid a Chymuned | 1,939,206 | 1,861,880 |
| 5) Eisteddfod | 1,760,935 | 1,769,094 |
| 6) Cylchgronau | 138,906 | 164,083 |
| 7) Costau trefn lywodraethol | - | 127,825 |
| 8) Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 44,243 | 71,461 |
| 9) Chwaraeon | 1,112,880 | 1,293,140 |
| 10) Prentisiaethiaid | 415,850 | - |
| 11) Ailbrisio adeiladau | - | 4,700 |
| **Cyfanswm Gwariant 2019/2020** | **11,312,932** | **10,863,468** |

Urdd

# GWYBODAETH ARIANNOL

CANLYNIAD Y FLWYDDYN 2019/2020

| | 2020 (£) | 2019 (£) |
|---|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 637,614 | 2,050,977 |
| Gweddill/(Diffyg) ar werthu asedau ac buddsoddion | 0 | 751 |
| | 637,614 | 2,051,728 |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | (417,986) | 166,169 |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn cronfeydd** | 219,628 | 2,217,897 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2019 | 20,848,180 | 18,630,283 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2020** | **21,067,809** | 20,848,180 |

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £8,670,809 o gronfeydd rhydd, £3,268,867 o gronfeydd cyfyng a £10,771 o gronfeydd gwaddol.

Mae'r cynnydd net am y flwyddyn o £219,628 (ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd) yn cynnwys gweddill o £1,280,689 ar gronfeydd rhydd a diffyg o £1,061,061 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR 2019/20

Mae'r cyfrifon yma yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd o'r datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni, ar 27 Mawrth 2021 ac maent wedi'u hanfon i Dŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon llawn gan Ashmole & Co., Cyfrifwyr Siartredig a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid cyfeirio at y cyfrifon statudol llawn, Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr